Crynodeb o Safonau

Arholiad Ysgrifenedig - asesiad o sgiliau ysgrifenedig yr hyfforddai

Marc allan o 100 (cyfwerth i 40% o'r marc terfynol)

Marc 85 ac uwch	Dangosir ymwybyddiaeth gadarn iawn o gywirdeb iaith gyda chymorth Cysill. Yn gallu ysgrifennu cynnwys treiddgar mewn cywair hollol briodol gan ddefnyddio geirfa a thermau cyfoethog a chyfoeth o gystrawennau heb ymyrraeth o du'r Saesneg.
Marc rhwng 70-84	Dangosir ymwybyddiaeth gadarn o gywirdeb iaith gyda chymorth Cysill. Yn gallu ysgrifennu cynnwys deallus mewn cywair priodol gan ddefnyddio geirfa a thermau eang iawn a chystrawennau amrywiol. Prin iawn yw'r ymyrraeth o du'r Saesneg.
Marc rhwng 60-69	Dangosir ymwybyddiaeth dda o gywirdeb iaith gyda chymorth Cysill. Yn gallu ysgrifennu cynnwys diddorol mewn cywair priodol gan amlaf, gan ddefnyddio geirfa a thermau eang a chystrawennau amrywiol gan amlaf. Prin yw'r ymyrraeth o du'r Saesneg.
Marc rhwng 50-59	Dangosir ymwybyddiaeth foddhaol o gywirdeb iaith gyda chymorth Cysill. Yn gallu ysgrifennu cynnwys boddhaol mewn cywair priodol ar y cyfan, gan ddefnyddio geirfa a thermau digonol a nifer cyfyngedig o gystrawennau. Ceir ymyrraeth o du'r Saesneg o bryd i'w gilydd.
Marc llai na 50	Ni ddangosir ymwybyddiaeth o gywirdeb iaith gyda chymorth Cysill. Mae cywair y darn sylfaenol ei gynnwys yn amhriodol, a'r eirfa, y termau a'r cystrawennau'n gyfyngedig iawn. Dangosir ymyrraeth gyson o du'r Saesneg.

Asesiad Ymarferol 1 - Safon llythrennedd personol yr hyfforddai

Marc allan o 100 (cyfwerth i 30% o'r marc terfynol)

Marc 85 ac uwch	Dangosir lefel hynod o uchel o sgiliau llythrennedd personol gweithredol sy'n gymwys i'r cyd-destun addysgol.
Marc rhwng 70-84	Dangosir lefel uchel o sgiliau llythrennedd personol gweithredol sy'n gymwys i'r cyd-destun addysgol.
Marc rhwng 60-69	Dangosir sgiliau llythrennedd personol gweithredol da sy'n gymwys i'r cyd-destun addysgol.
Marc rhwng 50-59	Dangosir sgiliau llythrennedd personol gweithredol boddhaol sy'n gymwys i'r cyd-destun addysgol.
Marc llai na 50	Ni roddir sylw digonol i sgiliau llythrennedd personol gweithredol sy'n gymwys i'r cyd-destun addysgol.

Asesiad Ymarferol 2 - Y gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd y dysgwyr

Marc allan o 100 (cyfwerth i 30% o'r marc terfynol)

Marc 85 ac uwch	Manteisir i'r eithaf ar wybodaeth a dealltwriaeth y myfyriwr er mwyn cymell ac ysbrydoli dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd eu hunain.
Marc rhwng 70-84	Manteisir ar wybodaeth a dealltwriaeth y myfyriwr er mwyn cymell dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd eu hunain.
Marc rhwng 60-69	Defnyddir gwybodaeth a dealltwriaeth y myfyriwr er mwyn datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwyr.
Marc rhwng 50-59	Mae gwybodaeth a dealltwriaeth y myfyriwr yn ddigon cadarn i gefnogi sgiliau llythrennedd y dysgwyr.
Marc llai na 50	Gall diffyg sgiliau llythrennedd personol y myfyriwr gael effaith andwyol ar ddatblygiad sgiliau llythrennedd y dysgwyr.